

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Alun Owen

Nos Lun Tachwedd 7fed 2016 am 7.30 y.h.

Cofnodion

1a) Cafwyd cyfarfod gyda Steven Teale o Gyngor Conwy yn trafod y diweddara ynglŷn â'r peiriannau talu ar y cyfleusterau cyhoeddus. Cafwyd ganddo ffigyrau o'r elw o fis Mehefin i fis Medi hefyd y gost o'i cynnal a chadw. Awgrymodd i ni fel Cyngor gymryd dros gynnal y toiledau. Cytunodd ar inni drafod y posibilrwydd o hun hefyd yr arbrawf o gadw'r unedau yn agored 24awr y dydd hun wrth dalu'r 20c y tro. Diolchwyd iddo am ei bresenoldeb.

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Paul Weston.

2. **Presennol:** Cyng. Alun Edwards, Gari Jones, Alun Owen, Edmund Rees, Gwynfor Roberts a'r Cynghorydd Sirol Dilwyn Roberts ac Enid Williams (Clerc)

3. **Datgan Cysylltiad:** Neb yn datgan diddordeb.

4. **Cofnodion:**

a) **Mis Gorffennaf:** cynigiwyd yn gywir gan Gwynfor Roberts gydag Edmund Rees yn eilio.

b) **Mis Medi:** derbyniwyd cefnogaeth i eitem rhif 7 hefyd cadarnhad ar eitemau Rhif 8.1. 8.2 a 8.3 yn y Cofnodion Cynigiodd Alun Edwards gyda Edmund Rees yn eilio ei derbyn fel rhai cywir.

c) **Mis Hydref:** Cynigiodd Gari Jones gyda Edmund Rees yn eilio fod y Cofnodion yn rhai cywir.

5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**

5.1. **Cofnodion mis Medi** – Draeniau wrth Sign angen sylw. Y clercc wedi cysylltu gyda Chyngor Conwy heb gael ymateb eto. Llinellau gwyn wrth groesffordd Parc heb ei peintio angen gwaith ar y groesffordd cyn cwblhau'r gwaith paentio llinellau.

6. **Gohebiaeth:**

6.1. CBSC – llythyr yn ein hysbysu'r bwriad fod BT am dynnu'r blwch ffon sydd wrth y maes Parcio. Y clercc i yrru llythyr yn mynegi ein hanfodlonrwydd.

6.2. BDO - Y fantolen wedi ei derbyn fel un gyflawn.

6.3. Un Llais Cymru – gan ei bod wedi derbyn nifer fawr o gwynion gan glerccod am y broses archwilio allanol a gynhaliwyd gan BDO. Gofynnwyd am y problemau a gafwyd gan fod cyfarfod wedi ei drefnu gydag Un Llais Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

7. **Monitro'r Gyllideb:**

Ar ôl archwilio'r Gyllideb ac ar gynigiad Edmund Rees gyda Gari Jones yn eilio a phawb yn gytûn cafwyd popeth yn gywir ac mewn trefn.

8. **Coeden Nadolig:**

Penderfynwyd archebu Coeden eto eleni gan Jon Taylor a'i gosod ar y dydd Sul olaf o'r mis.

9. **Offer Chwarae:**

Gan fod yr offer chwarae sydd yn y parc picnic wedi malu cynigiodd Gwynfor Roberts gyda Edmund Res yn eilio a phawb yn gytûn ei tynnu oddi yno.

10. **Gair gan y Cyng. Dilwyn Roberts**

Cafwyd gair gan y Cynghorydd Sirol a dywedodd fod y cynghorau Sirol yn cydweithio ar hyn o bryd i arbed arian yn y gwahanol feysydd. Arbrawf casglu'r biniau du pob 3 wythnos yn gweithio a'r ailgylchu i fynnu.

11. **Unrhyw fater arall:**

11.1 Y ffrâm bren o flaen y Tŷ Siocled angen sylw hefyd y warchodfa bysus. Gofyn i Gethin P roi pris ar y ddau.

11.2. Cyfarfod yn Ysbyty Ifan nos Iau 10fed gyda BT i drafod band-ead. Cytunodd Alun Owen, Cyng. Sirol Dilwyn Roberts ar clercc fynd.

12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Rhagfyr 5ed 2016 am 7.30 y.h.**

Arwyddwyd Alun Owen Dyddiad 05.12.2016
Cadeirydd

